Andreas: y ganrif gyntaf

Brawd Seimon Pedr

Gostyngeiddrwydd / ffyddlondeb

Ydych chi'n cofio faint o ddisgyblion oedd gan Iesu Grist? Ie, dyna chi, deuddeg. Ond ydych chi'n gwybod pwy oedd disgybl cyntaf Iesu? Rwy'n siŵr eich bod yn gwybod enw ei frawd. Pedr! Pwy oedd brawd Pedr? Mae'r stori hon yn sôn am frawd Seimon Pedr, sef Andreas.

Brodyr oedd Pedr ac Andreas. Pysgotwyr oedden nhw yn byw ar lan môr Galilea. Enw'r pentref oedd Capernaum. Cyn dod yn ddisgybl i Iesu, roedd Andreas wedi bod yn ddisgybl i Ioan Fedyddiwr. Byddai Ioan yn pregethu yn yr anialwch. Dylifai tyrfaoedd o bobl yno i'w glywed.

"Rwyf yn paratoi'r ffordd ar gyfer rhywun mwy na mi," meddai Ioan wrth y bobl. "Hwn fydd Mab Duw ei hun. Fydda i ddim yn deilwng i ddatod carrai'i esgidiau."

Roedd pawb yn disgwyl am Fab Duw. Pan oedd Iesu yn mynd heibio un diwrnod dywedodd Ioan Fedyddiwr,

"Wele Oen Duw." Roedd Andreas bellach yn gwybod bod Iesu yn Fab i Dduw. Rhedodd at lan y llyn i ddweud wrth ei frawd Pedr, "Tyrd efo mi i gael gweld Mab Duw ei hun." Ufuddhaodd Pedr ac aeth gyda'i frawd.

Pan welodd Iesu y ddau frawd, fe ddywedodd wrthyn nhw am adael eu gwaith fel pysgotwyr: "Dewch efo mi ac mi fyddwch chi'n dal pobl yn awr."

A dyma fo'n dweud wrthyn nhw am ddod â'u ffrindiau efo nhw, sef Iago ac Ioan. Y pedwar yma oedd y rhai cyntaf i ddod yn ddisgyblion i'r Iesu. Nhw oedd y pedwar cyntaf yn y tîm o ddeuddeg. Pedr, brawd Andreas, ddaeth yn gapten ar y tîm. Ys gwn i sut oedd Andreas yn teimlo? Ef, wedi'r cwbwl, oedd y cyntaf i ddarganfod Iesu. Efallai nad oedd Andreas eisiau bod yn gapten ar y tîm. Gwell oedd ganddo fod yn rhan o'r tîm. Er nad ydyn ni'n gwybod llawer am Andreas, dydi hynny ddim yn dweud nad oedd o'n bwysig yn y tîm.

Bu Andreas yn weithgar iawn ar hyd ei oes. Aeth i wahanol wledydd i sôn am Iesu Grist. Bu farw yng Ngwlad Groeg. Am ei

fod yn un o ddilynwyr Iesu, cafodd ei groeshoelio. Doedd llawer o'r bobl oedd yn byw yng nghyfnod Andreas ddim yn hoffi clywed am Iesu Grist. Fe fyddai'r bobl yn lluchio cerrig atyn nhw, neu eu rhoi yn y carchar. Fe gafodd Andreas ei groeshoelio ar groes siâp **X**. Pan oedd ar y groes bu'n pregethu a dysgu am Iesu i'r funud olaf.

Andreas ydi nawddsant yr Alban. Mae yna stori sy'n dweud bod un o drigolion Patras, lle cafodd Andreas ei groeshoelio, wedi cael breuddwyd. Yn y freuddwyd, dywedodd Duw wrtho am fynd â rhan o gorff Andreas efo fo. Byddai Duw yn ei arwain i wlad arall. Y wlad honno oedd yr Alban. Adeiladodd eglwys yno mewn lle a elwir heddiw yn St Andrews. Pan fydd yr Alban yn chwarae gemau pêl-droed neu rygbi bydd baner yr Alban yn chwifio. Baner las ydi hon a chroes wen arni. Baner Andreas. Na, does neb yn cael anghofio am y disgybl tawel. Byddwn yn cofio am Andreas ar y 30 o Dachwedd bob blwyddyn.

"Andreas, brawd Simon Pedr, oedd un o'r ddau a aeth i ganlyn Iesu ar ôl gwrando ar Ioan."

Ioan 1:40

O Dduw,
weithiau mi ydw i eisiau bod yn geffyl blaen.
Y fi a dim ond y fi.
Helpa fi i gofio am Andreas.
Fe ddaeth â'i frawd, Pedr, at Iesu
ac wedyn fe roddodd y lle blaenaf i Pedr.
Pedr yn gyntaf, Andreas yn ail.
Diolch am bobl fel Andreas.
Amen.

Allwn ni i gyd ddim bod yn geffylau blaen.
Pa mor bwysig ydi chwarae ein rhan yn yr ail safle?